**Adroddiad i'r:** Cyngor Sir

**Dyddiad y Cyfarfod:** 18 Hydref 2016

**Aelod / Swyddog Arweiniol:** Y Cynghorydd Julian Thompson Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, y Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad / Alan Smith, Pennaeth Gwasanaeth, Gwella a Moderneiddio Busnes

**Awdur yr Adroddiad:** Vicki Robarts – Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol

**Teitl:** **Adroddiad Perfformiad Blynyddol Drafft 2015/16**

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae gofyn i'r Cyngor gyhoeddi adroddiad blynyddol ar ei berfformiad erbyn 31 Hydref bob blwyddyn. Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag Adolygiad Perfformiad Blynyddol drafft y Cyngor ar gyfer 2015/16.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Mae angen penderfyniad i gymeradwyo'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol drafft 2015/16, y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel yr Adroddiad drafft.

2.2 Mae'r Adroddiad drafft yn cynnwys crynodeb naratif o'r cynnydd ar gyfer pob blaenoriaeth corfforaethol, gan danlinellu llwyddiannau allweddol neu heriau sydd wedi eu hwynebu yn ystod y flwyddyn. Hefyd mae'n crynhoi perfformiad prosiectau corfforaethol, risgiau corfforaethol, dangosyddion cymharol (Dangosyddion Strategol Cenedlaethol (NSI), Mesurau Atebolrwydd Perfformiad (PAM) a chanfyddiadau allweddol gan reoleiddwyr allanol. Hefyd mae'r Adroddiad yn cynnwys gwybodaeth wedi ei grynhoi ynglŷn â gwaith a wnaed mewn perthynas ag amrywiaeth a chydraddoldeb, Safonau'r Iaith Gymraeg yn ogystal â gweithgarwch gyda phartneriaid a thrwy gydweithio.

2.3 Detholiad o'r System Reoli Perfformiad Verto yw Atodiad 4 yr Adroddiad drafft. Mae'n cynnwys graffiau i arddangos data perfformiad mewn perthynas â'r Cynllun Corfforaethol a dangos y tueddiadau mewn perfformiad dros amser.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Argymhellir fod Aelodau'n cydymffurfio â'r Adroddiad drafft, ar ôl unrhyw newidiadau y cytunwyd arnynt, er mwyn galluogi ei gyfieithu a'i gyhoeddi cyn 31 Hydref 2016.

## 4. Manylion am yr adroddiad

4.1 Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor 2012-17 yn gosod y cyfeiriad strategol i'r cyngor a'i flaenoriaethau dros y cyfnod o bum mlynedd. Nodir y manylion ynglŷn â'r hyn mae'r cyngor yn bwriadu ei wneud bob blwyddyn i geisio cyflawni'r blaenoriaethau

hyn yn y cynlluniau gwasanaeth blynyddol a'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol ar gyfer y Cynllun Corfforaethol.

4.2 Mae'r Adroddiad drafft hwn yn darparu gwerthusiad ôl-weithredol o lwyddiant y Cyngor wrth gyflawni'r cynlluniau yn ystod 2015/16, ac a yw'r Cyngor wedi gwireddu ei ymrwymiad yn llwyddiannus i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaol.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Mae'r Adroddiad drafft yn darparu gwerthusiad o lwyddiant y Cyngor wrth gyflawni o'i gymharu â'i flaenoriaethau corfforaethol.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Yr unig gostau cysylltiedig yw'r rhai sy'n ymwneud ag argraffu'r Adroddiad drafft fel y bydd ar gael yn nerbynfeydd y cyngor, llyfrgelloedd, siopau un stop ayb. Bydd hyn yn cael ei wneud yn fewnol, gyda'r costau'n cael eu hamsugno gan yr adran Gwella Busnes a Moderneiddio.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les? Gellir lawrlwytho'r adroddiad Asesiad o Effaith ar Les o'r wefan a dylai gael ei gynnwys fel atodiad i'r adroddiad hwn**

7.1 Nid oes angen Asesiad o Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn. Mae'r Adroddiad drafft yn darparu gwerthusiad ôl-weithredol o berfformiad y cyngor, ac nid oes potensial o effaith ar Les dinasyddion lleol yn sgil y penderfyniad i gymeradwyo'r adroddiad hwn. Cynhaliwyd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ar y Cynllun Corfforaethol, a chafodd ei gyflwyno i'r Cyngor Sir pan gymeradwywyd y cynllun ym mis Hydref 2012.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

8.1 Mae'r Adroddiad drafft wedi ei ddatblygu gan y Tîm Cynllunio Strategol, mewn ymgynghoriad â gwasanaethau eraill y cyngor. Mae'r wybodaeth ynglŷn â pherfformiad sy'n cael ei chynnwys o fewn y ddogfen wedi ei darparu gan wasanaethau, ac mae wedi ei chymryd o'r system reoli perfformiad Verto. Ymgynghorwyd â'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth (SLT) a'r Cabinet cyn cyflwyno'r adroddiad i'r Cyngor Sir i'w gymeradwyo.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid.**

9.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol sylweddol yn codi o'r Adroddiad drafft ac mae trosolwg o'r wybodaeth ariannol a gwariant yn cael ei gynnwys yn yr Adroddiad drafft.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Mae'r "risg o adroddiad(au) hynod negyddol gan reoleiddwyr allanol" yn risg sy'n cael ei nodi ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol. Byddai methu cyhoeddi'r Adolygiad

Blynyddol erbyn 31 Hydref yn debygol o arwain at argymhellion statudol gan Swyddfa Archwilio Cymru, gydag oblygiadau sylweddol i enw da'r Cyngor.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1 Mae'r Cynllun Corfforaethol a'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol yn elfennau allweddol yn Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella (2010), sydd wedi ei seilio ar ofynion statudol Deddf Llywodraeth Leol 1999 a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.